| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **5 Gorffennaf 2010** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

**Penderfyniadau**

2. **Achos 200901335 (Cyngor Gwynedd) -** Cwyn yn erbyn cynghorydd y dylai fod wedi datgan diddordeb oherwydd bod person oedd ynghlwm â'r mater gerbron y pwyllgor yn aelod o'r un capel. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio gan nad oedd y cysylltiad, yn ei farn ef, yn un digon agos i fod yn *'gysylltiad personol agos'* o dan y cod. Fel canlyniad nid oedd angen i'r aelod fod wedi datgan buddiant.

**Achosion heb benderfyniad**

3. Rydym yn ymwybodol o 5 cwyn sydd ar agor ar hyn o bryd:

- **200802179** ymchwiliad yn parhau
- **200802180** ymchwiliad yn parhau
- **200900808** wedi ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru
- **200901550** ymchwiliad yn parhau
- **2402/200901904** ymchwiliad yn parhau

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.